Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dolbadarn

Llanberis
Gwynedd
LL55 4SH

Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dolbadarn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Dolbadarn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 132 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 104 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 6.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 20.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 70.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 15/10/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn arweinydd cadarn sy’n ysbrydoli eraill yn llwyddiannus. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer creu amgylchedd dysgu gofalgar a chroesawgar lle caiff pob disgybl ei annog i anelu’n uchel. Mae’r weledigaeth hon wedi ei rhannu’n effeithiol gyda chymuned yr ysgol ac mae ymdeimlad cryf o berthyn yn treiddio drwy fywyd yr ysgol. Mae lles a hapusrwydd disgyblion wrth galon y ddarpariaeth, ac mae perthnasoedd parchus rhwng staff a disgyblion yn helpu sicrhau awyrgylch diogel a chefnogol ar gyfer dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith, sy’n cefnogi presenoldeb ac ymddygiad da. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. O oedran cynnar, mae llawer yn datblygu medrau siarad hyderus yn Gymraeg, ac erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn cyfathrebu’n fedrus yn Gymraeg a Saesneg. Mae medrau darllen ac ysgrifennu’r disgyblion yn datblygu’n gadarn dros amser, gan eu galluogi i ysgrifennu at wahanol ddibenion a thrafod testunau’n aeddfed. Maent hefyd yn cymhwyso eu medrau datrys problemau yn llwyddiannus ar draws ystod o weithgareddau.

Rhoddir pwyslais cryf ar hyrwyddo’r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan feithrin ymdeimlad cadarn o hunaniaeth a balchder ymhlith disgyblion. Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae’r ddarpariaeth ofalgar yn helpu’r rhan fwyaf i wneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Ar y cyfan, mae addysgu bwriadus yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda ac i adalw dysgu blaenorol yn fedrus. Mae profiadau ysgogol yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu yn llwyddiannus ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf yn bwrpasol. Er hyn, nid yw’r arferion addysgu mwyaf effeithiol bob tro’n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn gwerthuso’r ddarpariaeth yn bwrpasol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu rolau’n gydwybodol, ac mae partneriaethau cadarn â rhieni a’r gymuned yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion ac yn cefnogi eu lles a’u datblygiad yn effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithol ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth yn arweinydd ysbrydoledig a chadarn. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar ddarparu amgylchedd ddysgu ysgogol, ofalgar a chroesawgar sy'n cefnogi disgyblion i 'gyrraedd copa'r Wyddfa'. Mae hi wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni a chymuned yr ysgol ac mae ymdeimlad cryf o berthyn i deulu cefnogol a chlòs.

### Ciplun: Arweinyddiaeth strategol yn hybu agweddau cadarn at ddysgu

Mae gweledigaeth a dyheadau'r pennaeth yn helpu sicrhau bod meithrin lles a hapusrwydd disgyblion yn treiddio trwy holl agweddau gwaith yr ysgol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith hynod effeithiol â disgyblion sy'n pwysleisio parch, ymddiriedaeth a disgwyliadau uchel am yr hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ymateb yn bwrpasol a sensitif i'w hanghenion. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o ddiogelwch, bodlonrwydd a hapusrwydd ymysg disgyblion ac yn cefnogi amgylchedd ddysgu gynhwysol ac egnïol sy'n annog disgyblion i ymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu. Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn gadarnhaol sydd, yn ei dro, yn cefnogi presenoldeb rheolaidd ac ymddygiad da. Yn ogystal, mae hyn yn gosod sylfaen gref sy'n hybu'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu'r rhai o aelwydydd incwm isel, i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni'i hun ac eraill. Caiff ei chefnogi gan dîm o staff cydwybodol sy'n gweithio'n ddiwyd er mwyn cefnogi lles a chynnydd disgyblion. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau difyr yn yr ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn adeiladu ar eu chwilfrydedd naturiol yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod hybu hunaniaeth, iaith a diwylliant Cymru yn elfen gyson o fywyd yr ysgol. Maent yn darparu ystod eang o weithgareddau buddiol fel teithiau yn yr ardal leol a chyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau sy'n cefnogi ymdeimlad cryf o Gymreictod a pherthyn ymysg disgyblion.

Yn yr arferion gorau, mae'r addysgu yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda ynghyd â'u gallu i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Mae holi treiddgar gan staff yn adalw dysgu blaenorol yn fedrus ac yn annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach am eu dysgu. Mae profiadau dysgu ysgogol yn tanio dychymyg disgyblion yn llwyddiannus ac, yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Mewn ychydig o sesiynau, mae tasgau'n herio'r disgyblion mwy abl yn llwyddiannus. Er hyn, nid oes bob tro ddigon o gysondeb yn yr arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol

Mae staff yn fodelau iaith effeithiol sy’n cefnogi llawer o ddisgyblion i gaffael medrau siarad cadarn o oedran cynnar. Mae’r disgyblion ieuengaf yn ymuno â chaneuon, rhigymau a sgyrsiau syml gyda brwdfrydedd a mwynhad. Erbyn Blwyddyn 2 a 3, mae disgyblion yn dechrau defnyddio brawddegau mwy cymhleth a chysylltu syniadau’n bwrpasol. Mae’r disgyblion hynaf yn ymateb yn feddylgar i farnau eraill, gan ddefnyddio mynegiant a geirfa briodol. Dros amser, mae’r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus, ac ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu’n fedrus yn Gymraeg a Saesneg.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Mae’r disgyblion ieuengaf yn cysylltu seiniau’n hyderus ac yn datblygu’n ddarllenwyr medrus yn gynnar. Wrth symud trwy’r ysgol, mae disgyblion yn darllen gyda mynegiant bwriadus a chynyddol ac maent yn trafod cynnwys eu llyfrau’n aeddfed. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn ystyried arddulliau awduron yn ddeallus.

Mae medrau ysgrifennu’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn caffael medrau ysgrifennu cynnar pwysig wrth arbrofi’n hyderus wrth wneud marciau gydag ystod o gyfarpar. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn yn llwyddiannus dros amser ac, erbyn cyrraedd Blwyddyn 6, mae disgyblion yn ysgrifennu at ystod dda o ddibenion a chynulleidfaoedd ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o ffurf ac ieithwedd. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr ffurfiol at Lywodraeth Cymru er mwyn eu hannog i sefydlu deddf sy’n ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn yng Nghymru ddysgu sut i goginio bwyd iach.

Dros amser, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemateg. Mae llawer yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth esbonio’u gwaith a thrafod ac mae’r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ar draws ystod dda o gyd-destunau. Mae medrau datrys problemau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn cymhwyso’r medrau hyn yn fwriadus ar draws ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn dethol a dewis pa wrthrychau fyddai orau i adeiladu lloches i ‘Dewi Dyfrgi’. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. O oedran cynnar, maent yn defnyddio apiau ac offer digidol amrywiol yn hyderus sy’n cefnogi eu dysgu ehangach yn llwyddiannus.

Mae’r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae staff yn adnabod yn fuan y disgyblion a fyddai’n elwa o gefnogaeth bellach. Maent yn ystyried anghenion penodol a hoffterau disgyblion ac yn cydweithio’n effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol. Lle bo’n briodol, maent yn trefnu rhaglenni cefnogi pwrpasol sy’n diwallu anghenion disgyblion yn fedrus. Mae’r ddarpariaeth ystyrlon a gofalgar a gynigir yn nosbarth Y Garn yn cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY i wneud cynnydd cadarn yn eu lles a’u medrau llythrennedd a rhifedd o’u mannau cychwyn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar les a chynnydd disgyblion. Maent yn ystyried ystod ddefnyddiol o dystiolaeth uniongyrchol yn ofalus. Mae hyn yn ei dro yn eu cefnogi i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn, gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu medrau rhifedd disgyblion, yn fwriadus. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu diwallu'n ddiwyd a chydwybodol. Maent yn cynnig cefnogaeth fwriadus i arweinwyr ac yn eu dwyn i gyfrif yn briodol.

Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i ymgymryd â rolau arwain. Maent yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau o ddifrif ac yn meithrin medrau pwysig fel dangos empathi a chydweithio. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at waith yr ysgol, er enghraifft wrth iddynt hyrwyddo ymwybyddiaeth eu cyfoedion o wythnos iechyd meddwl plant. Darperir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu teimladau ac ystyried eu credoau a'u moesau yn bwrpasol.

Rhan annatod o waith yr ysgol yw'r ffordd y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn sefydlu a chynnal partneriaethau effeithiol â rhieni a'r gymuned leol. Er enghraifft, mae buddsoddiad sylweddol gan gwmni adnabyddus wedi cefnogi gosod offer cadw'n heini ar fuarth yr ysgol. Mae hyn yn ei dro yn hybu cymhelliant disgyblion i ymgymryd â gweithgarwch corfforol a gwneud penderfyniadau ystyrlon am sut i gadw'n iach.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026